# Taflen Cynllunio Gwers – Hysbyseb 'Llewpart Eira' (Testun - Perswâd)

| | |
|---|---|
| **Blwyddyn / CA:** | Awgrym Blwyddyn: Bl9 |

| | |
|---|---|
| **Nod y wers:** | Adnabod prif nodweddion testun sy'n perswadio gan ymateb i'r iaith, y naws a'r cyflwyniad (Sgil Rhaglen Astudio Llinyn Darllen CA3) |
| **Rhaglen Astudio (Darllen) CA3:** | Bl9 Strategaethau darllen – "defnyddio'u gwybodaeth am gynnwys a chyd destun brawddegau a thestun cyfan"<br>Bl9 Darllen a deall – "dod i ddeall testun yn llawn gan ddefnyddio technegau casglu, dehongli a dadansoddi"<br>Bl9 Ymateb a dadansoddi – **"ystyried yr hyn y maent yn ei ddarllen gan ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r syniadau, yr iaith, y naws a'r cyflwyniad gan ddewis a dethol tystiolaeth o'r testun i gefnogi eu barn bersonol neu feirniadol"** ✣ |

| **Camau'r wers:** | |
|---|---|
| **Dysgu: Beth fydd y dysgwyr yn ei wneud?** | **Addysgu: Beth fydd yr athro yn ei wneud?** |
| Sbardun: gwylio a gwrando ar glip fideo o lewpart eira yn ei gynefin<br>Nodi ar bapur neu ar fwrdd gwyn bach eu teimladau wrth wylio'r clip<br>Rhoi llun o'r llewpart eira sydd ar y daflen i bob grŵp a gofyn iddynt feddwl ble allent weld llun tebyg i'r llun hwn | Procio a holi'r disgyblion i'w arwain i drafod eu teimladau wrth wylio'r clip<br>Adborth dosbarth cyfan ar eu ymateb i'r clip<br>Gwrando a chynnig sylwadau ar eu hatebion a chyflwyno'r hysbyseb 'Llewpart Eira' sy'n cynnwys y llun a'r wybodaeth<br>Gosod nod y wers ar y BGRh |
| **Datblygu'r wers:** | |
| Rhannu'r dosbarth yn barau a phob pâr i ateb UN o'r cwestiynau sydd o amgylch yr hysbyseb 'Llewpart Eira'<br>Defnyddio bwrdd gwyn bach i gofnodi eu hatebion i'r cwestiynau o amgylch y poster<br>Pâr sydd wedi ateb YR UN CWESTIWN i gymharu eu hateb gyda phâr arall<br>Aborth dosbarth cyfan ar atebion i'r cwestiynau I GYD sydd o amgylch yr hysbyseb 'Llewpart Eira'<br>Defnyddio'r daflen "Jig-so Trafod Testun" (maint A3) i gofnodi'r gwahanol elfennau (Iaith ac Arddull / Bwriad a Chynulleidfa / Diwyg) gan ddefnyddio postiau bach (e.e. "Post-its")<br>Gwerthuso eu hatebion drwy ddefnyddio gweithgaredd Wordwall | Cylchu'r dosbarth i gefnogi gwaith y parau<br><br><br><br><br><br><br><br>Cwestiynu pam nodwyd elfennau penodol ar y postiau bach<br><br><br>Casglu gwybodaeth ar sut y daethpwyd i'r canlyniadau ar y daflen 'Jig-so Trafod Testun' |
| **Clo y wers:** | |
| Cyflwyno lluniau o amrywiol anifeiliaid prin eraill<br>Defnyddio'r daflen A3 'Jig-so Trafod Testun' a lanwyd i ddechrau creu eu hysbyseb eu hunain mewn grwpiau o 4 | Gofyn iddynt ystyried y cynnydd a wnaed yn ystod y wers o safbwynt eu hadnabyddiaeth o brif nodweddion testun sy'n perswadio |
| **Adnoddau:** | |
| Clip fideo (cerddoriaeth yn unig) o lewpart eira<br>Hysbyseb 'Llewpart Eira'<br>Taflen 'Jig-so Trafod Testun' | |
| **Deilliannau Dysgu:** | |
| Drwy gwestiynu'r disgyblion yng nghlo y wers gwelir y cynnydd a wnaed o safbwynt deall beth yw prif nodweddion testun sy'n perswadio e.e. iaith, naws a chyflwyniad. | |

GwE
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
Ysgol Tryfan
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government